maethu cymru | foster wales 2021–26

pum mlynedd o gynnydd a chydweithio i gefnogi ein plant



cydweithio i adeiladu gwell dyfodol i blant lleol



cynnwys

Neges gan Bennaeth Maethu Cymru 4

1. Ein taith 5

1.1 Cerrig milltir allweddol 6

2. Beth sydd wedi newid dros bum mlynedd? 7

2.1 Tyfu Maethu Cymru 8

2.2 Cefnogi gofalwyr maeth yn well 9

2.3 Cadw plant yn lleol 10

2.4 Gwella sefydlogrwydd i blant 11

2.5 Meithrin cydweithrediad cenedlaethol 12

2.6 Cerrig milltir allweddol 2025-26 13

3. Cipolwg ar bum mlynedd 14

4. Pum mlynedd mewn niferoedd 15

4.1 Cyrraedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen 16

4.2 Meithrin cymuned faethu cymru ar gyfer y dyfodol 16

4.3 Datblygu gofal maeth 16

4.4 Paru plant â'r cartrefi cywir 17

4.5 Maethu Cymru wrth wraidd maethu yng Nghymru 17

4.6 Cefnogi plant hŷn 18

4.7 Gwella sefydlogrwydd i blant 18

4.8 Gofal gan berthnasau a phersonau cysylltiedig 18

4.9 Cynnydd mewn gweithgarwch asesu a chymeradwyo 19

4.10 Sicrhau sefydlogrwydd trwy ofal gan berthnasau 19

4.11 Plant mewn gofal preswyl 20

5. Prif uchafbwyntiau ariannol 21

6. Pum mlynedd mewn straeon 23

7. Edrych i'r dyfodol 27

neges gan bennaeth maethu cymru

Mae'n bleser mawr i mi gyflwyno'r adroddiad arbennig hwn sy'n nodi pum mlynedd gyntaf Maethu Cymru.

Pan lansiwyd Maethu Cymru yn 2021, roedd yn cynrychioli rhywbeth newydd: rhwydwaith cenedlaethol sy'n dwyn ynghyd bob un o'r 22 awdurdod lleol sy'n meithrin gwasanaethau ledled Cymru y tu ôl i weledigaeth a hunaniaeth gyffredin. Er bod gan bob awdurdod lleol hanes hir a balch o gefnogi plant trwy faethu, fe wnaethom ni gydnabod y gallem gyflawni llawer mwy drwy weithio gyda'n gilydd nag y gallai unrhyw un ohonom ar ein pen ein hunain.

Roedd yr uchelgais yn glir. Roeddem ni eisiau cryfhau maethu awdurdodau lleol, recriwtio mwy o ofalwyr maeth, gwella cefnogaeth i'r rhai sydd eisoes yn maethu ac, yn y pen draw, sicrhau bod mwy o blant yn gallu tyfu i fyny mewn cartrefi diogel, sefydlog a chariadus yn agos at y bobl, y lleoedd a'r cymunedau sy'n bwysicaf iddynt. Bum mlynedd yn ddiweddarach, mae gennym ni lawer i fod yn falch ohono.

Gyda'n gilydd, rydym ni wedi sefydlu Maethu Cymru fel brand cenedlaethol cydnabyddedig, datblygu ymgyrchoedd recriwtio arloesol, adeiladu cefnogaeth gryfach i ofalwyr maeth, gwella cydweithredu rhwng awdurdodau lleol a chreu'r seilwaith sydd ei angen i ysgogi gwelliant parhaus ledled Cymru. Yn bwysicaf oll, mae gofalwyr maeth awdurdodau lleol wedi parhau i ddarparu cartrefi, gofal a sefydlogrwydd i filoedd o blant a phobl ifanc.

Mae'r cynnydd hwn wedi bod yn bosibl oherwydd ymrwymiad ac ymroddiad cymaint o bobl. Hoffwn ddiolch i ofalwyr maeth ledled Cymru, sy'n darparu cefnogaeth, cariad a sefydlogrwydd i'n plant bob dydd. Mae eu tosturi, eu gwydnwch a'u hymrwymiad yn gwneud gwahaniaeth eithriadol i fywydau plant a phobl ifanc. Hoffwn hefyd gydnabod cyfraniad gweithwyr cymdeithasol, staff cymorth, rheolwyr, arweinwyr awdurdodau lleol, aelodau etholedig, cydweithwyr Llywodraeth Cymru, sefydliadau partner ac, yn bwysicaf oll, y plant a'r bobl ifanc y mae eu profiadau yn parhau i siapio a gwella'r ffordd rydym ni'n darparu gwasanaethau maethu yng Nghymru.

Er bod yr adroddiad hwn yn dathlu cyflawniadau'r pum mlynedd diwethaf, mae hefyd yn ein hatgoffa bod ein taith ymhell o fod wedi'i chwblhau. Mae'r galw am ofal maeth yn parhau i dyfu ac mae recriwtio a chadw yn parhau i fod yn heriau ar draws y sector. Rhaid i ni barhau i weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod maethu lleol yn parhau i fod yn ddeniadol, yn gefnogol, yn gynaliadwy ac yn gallu diwallu anghenion ein plant yn y dyfodol. Rydym ni'n gwybod bod llawer i'w wneud o hyd os ydym ni am gyflawni ein gweledigaeth o roi cyfle i bob plentyn ffynnu.



Wrth i ni edrych ymlaen at gam nesaf Maethu Cymru, rwy'n optimistaidd am yr hyn y gallwn ni ei gyflawni gyda'n gilydd. Mae'r sylfeini rydym ni wedi'u gosod yn gryf. Rydym ni wedi dangos pŵer cydweithredu, gwerth dull cenedlaethol a'r gwahaniaeth y gall maethu awdurdodau lleol ei wneud i fywydau plant.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ein taith hyd yn hyn, gan ddathlu'r cynnydd rydym ni wedi'i wneud, cydnabod y bobl sydd wedi ei wneud yn bosibl ac yn nodi ein huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

Alastair Cope
Pennaeth Maethu Cymru

ein taith

1

Sefydlwyd Maethu Cymru yn 2021 fel rhan o'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol, gan ddod â'r 22 o wasanaethau maethu awdurdodau lleol ledled Cymru ynghyd o dan un hunaniaeth genedlaethol. Roedd ei ddiben yn syml ond yn uchelgeisiol: cryfhau gwasanaethau maethu awdurdodau lleol, cynyddu nifer y gofalwyr maeth lleol, a sicrhau bod mwy o blant yn gallu cadw cysylltiad â'u teuluoedd, eu hysgolion, eu cymunedau, eu hiaith a'u diwylliant.

Crëwyd Maethu Cymru ar adeg pan oedd gwasanaethau maethu awdurdodau lleol ledled Cymru yn wynebu heriau cyffredin. Roedd y galw am gartrefi diogel i blant yn cynyddu, roedd anghenion plant oedd yn mynd i ofal yn dod yn fwy cymhleth, ac roedd llawer o awdurdodau lleol yn ei chael hi'n fwyfwy anodd recriwtio a chadw digon o ofalwyr maeth. Ar yr un pryd, roedd yr angen i gomisiynu gofal maeth gan ddarparwyr annibynnol yn cynyddu, yn aml am gost sylweddol ac yn aml ymhellach i ffwrdd o gymunedau lleol y plant.

I blant, gallai'r canlyniadau fod yn sylweddol. Pan nad yw gofalwyr maeth lleol ar gael, efallai y bydd angen i blant symud i ffwrdd oddi wrth eu teuluoedd, eu hysgolion, eu grwpiau ffrindiau a'r cymunedau sy'n rhan bwysig o'u hunaniaeth. Mae cynnal y cysylltiadau hyn wedi cael ei gydnabod ers amser maith fel ffactor allweddol wrth helpu plant i gyflawni canlyniadau cadarnhaol a phrofi sefydlogrwydd mewn gofal.

Yn hytrach na bod awdurdodau lleol yn ymateb yn unigol, dewisodd Cymru ddull gwahanol. Crëwyd Maethu Cymru fel rhwydwaith cenedlaethol a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i gydweithio i fynd i'r afael â heriau cyffredin, gan gynnal cryfderau gwasanaethau maethu a ddarperir yn lleol. Fe wnaeth dod ag arbenigedd o bob cwr o Gymru ynghyd greu cyfleoedd newydd i gydweithio, rhannu adnoddau, gwella cysondeb a chryfhau llais maethu awdurdodau lleol.

O'r cychwyn cyntaf, canolbwyntiodd Maethu Cymru ar bedwar uchelgais allweddol:

- Recriwtio mwy o ofalwyr maeth ar gyfer gwasanaethau maethu awdurdodau lleol.
- Gwella'r cymorth, yr hyfforddiant a'r gydnabyddiaeth a roddir i ofalwyr maeth.
- Cynyddu argaeledd gofalwyr maeth lleol i blant.
- Cryfhau cydweithio a chysondeb ledled Cymru.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at gyflawni pob un o'r uchelgeisiau hyn.

Sefydlwyd brand cenedlaethol cyffredin, gan gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau maethu gan awdurdodau lleol a darparu un llais ledled Cymru. Cyflwynwyd Swyddogion Recriwtio a Swyddogion Marchnata Rhanbarthol penodedig, gan helpu gwasanaethau i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a chryfhau'r seilwaith recriwtio ledled y wlad. Roedd ymgyrchoedd cenedlaethol yn herio camsyniadau am faethu ac yn dathlu'r cyfraniad mae gofalwyr maeth yn ei wneud i fywydau plant bob dydd.

Ar yr un pryd, datblygodd Maethu Cymru yr Ymrwymiad Cenedlaethol, gan nodi gweledigaeth gyffredin ar gyfer sut y dylid cefnogi gofalwyr maeth. Mae dulliau newydd o ddysgu a datblygu, cymorth gan gymheiriaid, mentrau lles a chydnabyddiaeth wedi helpu i greu profiad maethu mwy cyson ni waeth ble mae gofalwyr yn byw yng Nghymru.


Mae'r cydweithrediad hefyd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gosod y sylfeini ar gyfer cydweithio cenedlaethol. Sefydlwyd trefniadau llywodraethu newydd, gan gynnwys creu Cyd-bwyllgor y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) a Maethu Cymru yn 2024. Mae fframwaith perfformiad cryfach wedi gwella ansawdd a chysondeb data, gan helpu gwasanaethau i ddeall y galw yn well, mesur cynnydd a nodi cyfleoedd i wella.

Yn bwysicaf oll, mae'r datblygiadau hyn wedi parhau i ganolbwyntio ar wella canlyniadau i blant. Trwy gydol y cyfnod hwn, mae gofalwyr maeth awdurdodau lleol wedi parhau i ddarparu'r rhan fwyaf o ofal maeth ledled Cymru, gan helpu miloedd o blant i aros yn agos at y bobl a'r lleoedd sydd bwysicaf iddyn nhw.

Mae Maethu Cymru wedi esblygu o fod yn rhaglen genedlaethol newydd i fod yn rhwydwaith cenedlaethol sefydledig a chydnabyddedig. Er bod heriau'n parhau, mae'r cynnydd a wnaed yn dangos yr hyn sy'n bosibl pan fydd pob un o'r 22 awdurdod lleol yn cydweithio â gofalwyr maeth, plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner i gyflawni gweledigaeth gyffredin.

Mae stori Maethu Cymru yn dal i gael ei hysgrifennu, ond mae ei bum mlynedd cyntaf wedi dangos pŵer cydweithio wrth greu dyfodol gwell i blant lleol.

1.1 Cerrig milltir allweddol



beth sydd wedi newid dros bum mlynedd?

2

Ers ei lansio yn 2021, mae Maethu Cymru wedi gweithio i gryfhau gwasanaethu maethu awdurdodau lleol ledled Cymru a gwella canlyniadau i blant sydd angen gofal maeth. Mae awdurdodau lleol wedi cydweithio mewn ffyrdd newydd, wedi datblygu dull cenedlaethol o recriwtio a chefnogi, ac wedi buddsoddi mewn adeiladu cymuned maethu gryfach.

Er bod heriau sylweddol yn parhau, mae ymdrechion ar y cyd awdurdodau lleol, gofalwyr maeth, plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner wedi galluogi Maethu Cymru i wneud cynnydd ystyrlon tuag at ei weledigaeth o sicrhau bod mwy o blant yn gallu tyfu i fyny mewn cartrefi diogel, sefydlog a chariadus yn agos at eu teuluoedd, eu hysgolion a'u cymunedau.

Mae'r themâu canlynol yn dangos rhai o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol ers sefydlu Maethu Cymru.



2.1 Tyfu Maethu Cymru

Un o brif uchelgeisiau Maethu Cymru oedd cynyddu nifer y bobl sy'n ystyried maethu gydag awdurdod lleol a chodi proffil gwasanaethau maethu awdurdodau lleol ledled Cymru.

Cyn sefydlu Maethu Cymru, roedd awdurdodau lleol yn gweithredu'n annibynnol ar y cyfan o ran recriwtio, gan gystadlu'n aml am sylw'r un grŵp o bobl â diddordeb. Crëwyd hunaniaeth gyffredin a llais cryfach ar y cyd drwy gyflwyno brand cenedlaethol Maethu Cymru.

Ers ei lansio, mae Maethu Cymru wedi cynnal ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol, datblygu presenoldeb digidol modern, sefydlu partneriaethau â'r cyfryngau cenedlaethol a mynychu digwyddiadau mawr yng Nghymru, gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd. Mae'r gweithgareddau hyn wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o faethu a hyrwyddo manteision maethu i awdurdod lleol.

Beth sydd wedi newid?

- Cynyddodd ymwybyddiaeth o'r brand o 6% i 23%
- Cynyddodd nifer yr ymholiadau o 1483 i 1838
- Cynyddodd nifer yr asesiadau o 230 i 307
- Cynyddodd nifer y cymeradwyaethau prif ffrwd o 126 i 145
- Fe wnaeth 8386 o aelwydydd a oedd yn ystyried maethu ymholiadau dros y cyfnod o bum mlynedd

Cerrig milltir allweddol

- Lansio brand cenedlaethol Maethu Cymru
- Ymgyrchoedd teledu, radio a digidol cenedlaethol
- Cyfleoedd yn y wasg genedlaethol gan gynnwys BBC News
- Ymgyrch arobryn "Bring Something to the Table"
- Datblygu'r ymgyrch "These Are Our Voices" ochr yn ochr â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal

Taflu Goleuni ar Arfer Da Rhanbarthol: Cwm Taf Morgannwg

Cydweithio Rhanbarthol i Recriwtio a Chadw

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae rhanbarth Cwm Taf Morgannwg wedi croesawu gweledigaeth Maethu Cymru drwy ddod ag awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf ynghyd i greu dull mwy cydweithredol o faethu. Rhan allweddol o'r llwyddiant hwn yw datblygu tîm recriwtio a chadw rhanbarthol penodedig, sydd wedi tyfu i gynnwys chwe aelod o staff sy'n canolbwyntio'n llwyr ar recriwtio, cefnogi a chadw gofalwyr maeth prif ffrwd.

Drwy gydweithio, mae'r rhanbarth wedi cryfhau brand Maethu Cymru mewn cymunedau lleol ac ehangu ei bresenoldeb yn sylweddol ymhlith grwpiau cymunedol, busnesau lleol a gwasanaethau ehangach y cyngor. Mae hyn wedi helpu i greu llif mwy cyson o ymholiadau ac wedi gwella'r daith o'r ymholiad cychwynnol hyd at gymeradwyo.

Mae'r tîm rhanbarthol hefyd wedi trawsnewid y ffordd mae'n ymgysylltu â darpar ofalwyr maeth ac yn eu cefnogi. Gan weithio ochr yn ochr â Gofalwyr Maeth Arloesol profiadol, mae'r tîm wedi cyflwyno digwyddiadau gwybodaeth ar-lein rheolaidd, sesiynau holi ac ateb a phroses recriwtio fwy strwythuredig. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu fframwaith "y flwyddyn gyntaf o faethu", gan sicrhau bod gofalwyr maeth yn cael eu cefnogi o'u hymholiad cyntaf hyd at gymeradwyaeth a thu hwnt.

Mae cydweithio rhanbarthol hefyd wedi galluogi awdurdodau lleol i gyfuno adnoddau marchnata a sicrhau eu bod yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl. Mae buddsoddi ar y cyd wedi cefnogi ymgyrchoedd hysbysebu awyr agored, ar deledu ar-alw, ar radio rhanbarthol, mewn cyhoeddiadau ac ar gyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu, gan helpu Maethu Cymru i gyrraedd cynulleidfa ehangach a mwy amrywiol nag erioed o'r blaen.

Yn bwysicaf oll, efallai, mae'r dull rhanbarthol wedi creu cyfleoedd i rannu gwybodaeth am berfformiad, dysgu ac arloesi rhwng gwasanaethau. Mae hyn wedi galluogi awdurdodau lleol i ddysgu o lwyddiannau'r naill a'r llall, cryfhau cefnogaeth i deuluoedd maeth a gwella eu darpariaeth recriwtio a chadw yn barhaus.

Mae model Cwm Taf Morgannwg yn dangos pŵer cydweithio rhanbarthol, gan ddangos sut y gall rhannu arbenigedd, adnoddau ac uchelgais gryfhau gwasanaethau maethu lleol a helpu mwy o blant i dyfu i fyny gyda theuluoedd Maethu Cymru yn eu cymunedau eu hunain.

Taflu Goleuni ar Arfer Da Rhanbarthol: Caerdydd a Bro Morgannwg

Pum Mlynedd o Bartneriaeth

Mae Maethu Cymru Caerdydd a Bro Morgannwg wedi parhau i gryfhau cydweithio rhanbarthol ar draws y ddau awdurdod lleol, gan greu dull mwy cydgysylltiedig a chydweithredol o faethu. Trwy gydweithio, mae'r ddau awdurdod lleol wedi llwyddo i gynnal digwyddiadau haf ar y cyd, rhannu arferion gorau, gwella cysondeb wrth wneud penderfyniadau, a datblygu cynlluniau marchnata rhanbarthol a phrosesau adrodd sydd o fudd i'r ddau wasanaeth.

Un o'r prif gyflawniadau oedd datblygu grwpiau gweithgar o Ofalwyr Maeth Arloesol ledled y rhanbarth. Mae'r gofalwyr ymroddedig hyn wedi chwarae rhan amhrisiadwy wrth lunio'r gwasanaeth drwy roi adborth, cymryd rhan mewn gweithgorau, cefnogi ymweliadau cartref, mentora darpar ofalwyr maeth yn ystod camau cynnar eu taith, a mynychu digwyddiadau recriwtio i rannu eu profiadau.

Mae marchnata rhanbarthol wedi dod yn rhan gynyddol bwysig o weithgarwch recriwtio. Mae'r rhanbarth wedi mabwysiadu dull cydgysylltiedig o godi ymwybyddiaeth o faethu ac annog mwy o bobl i wneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc lleol drwy gynnal ymgyrchoedd cydgysylltiedig a defnyddio dulliau newydd sydd wedi cael eu treialu'n rhanbarthol.

Ochr yn ochr â recriwtio, mae gweithgareddau i gadw gofalwyr maeth wedi mabwysiadu dull rhanbarthol fwyfwy lle bynnag y bo modd, gan helpu i gryfhau perthnasoedd a meithrin ymdeimlad o gymuned ar draws y ddau awdurdod lleol. Roedd Pythefnos Gofal Maeth eleni yn enghraifft wych o'r dull cydweithredol hwn, gyda'r holl weithgareddau cadw gofalwyr yn cael eu cynnal yn rhanbarthol. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys digwyddiad dathlu i gydnabod ymroddiad ein gofalwyr maeth, taith gerdded gofal maeth wnaeth ddod â gofalwyr a staff at ei gilydd, a dosbarth salsa hwyliog.

Gyda'i gilydd, mae'r cyflawniadau hyn yn adlewyrchu pum mlynedd o bartneriaeth, arloesi ac ymroddiad i gefnogi gofalwyr maeth, cryfhau ein cymuned faethu a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc ledled Caerdydd a Bro Morgannwg.

2.2 Cefnogi gofalwyr maeth yn well

Roedd Maethu Cymru yn cydnabod o'r cychwyn cyntaf na fyddai recriwtio ar ei ben ei hun yn ddigon. Mae cadw gofalwyr maeth profiadol a sicrhau eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u paratoi i ofalu am blant wedi bod yr un mor bwysig.

Sefydlodd Ymrwymiad Cenedlaethol Maethu Cymru weledigaeth gyffredin ar gyfer darparu cymorth cyson i ofalwyr maeth ledled Cymru. Dros amser, mae hyn wedi ehangu i gynnwys cyfleoedd dysgu a datblygu, mentrau lles, rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid, cynlluniau cydnabyddiaeth a buddion ychwanegol.

Mae adnoddau newydd wedi'u cyflwyno i gefnogi gofalwyr drwy gydol eu taith faethu, tra bod mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol wedi helpu i rannu dulliau llwyddiannus a gwella cysondeb ledled Cymru.

Beth sydd wedi newid?

- Mwy o gysondeb o ran y ddarpariaeth i ofalwyr maeth
- Recriwtio cyson yn lleol ac yn rhanbarthol
- Cyfleoedd cymorth gan gymheiriaid ar gael ym mhob awdurdod lleol
- Gwell dysgu a datblygu
- Cyflwyno mentrau lles a chydnabyddiaeth newydd
- Gostyngodd y golled net o ofalwyr maeth o -80 i -6

Cerrig milltir allweddol

- Cyflwyno'r Ymrwymiad Cenedlaethol
- Lansio Croeso Mawr
- Cyflwyno Care Friends
- Datblygu cefnogaeth bwrpasol i ofalwyr LHDTC+
- Adolygu a diweddaru'r Fframwaith Dysgu a Datblygu



Taflu Goleuni ar Arfer Da Rhanbarthol: Gorllewin Morgannwg

Creu Cymuned sy'n Cefnogi Maethu

Wrth wraidd Maethu Cymru mae'r gred nad yw maethu yn digwydd ar ei ben ei hun. Mae plant yn ffynnu pan fyddant yn cadw cysylltiad â'u cymunedau, ac mae gofalwyr maeth yn ffynnu pan fyddant yn cael eu hamgylchynu gan ddealltwriaeth, cymorth ac anogaeth. Mae'r gred hon wedi sbarduno cyfres o fentrau cymunedol arloesol ledled rhanbarth Gorllewin Morgannwg.

Gan gydnabod y dylai maethu fod yn gyfrifoldeb i bawb, sefydlodd y rhanbarth Fenter Partneriaid Busnes Maethu Cymru, gan ddod â busnesau lleol ynghyd i helpu i godi ymwybyddiaeth o faethu a chreu amgylchedd mwy cefnogol i aelwydydd maeth. O fusnesau bach annibynnol i gyflogwyr mwy, mae partneriaid wedi ymrwymo i hyrwyddo maethu yn eu cymunedau ac archwilio ffyrdd o gefnogi gofalwyr maeth lleol a'r plant y maent yn gofalu amdanynt.

Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, lansiodd y rhanbarth Fenter Pencampwyr Ysgolion Maethu Cymru, sydd wedi'i chynllunio i gryfhau'r cymorth i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a theuluoedd maeth mewn lleoliadau addysg. Trwy fframwaith gwobrau Efydd, Arian ac Aur, caiff ysgolion eu cydnabod am eu hymrwymiad i ddeall anghenion plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, hyrwyddo ymwybyddiaeth o faethu a chreu amgylcheddau cynhwysol lle gall plant ffynnu.

Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn gan ysgolion ar unwaith. Ar ddiwrnod y lansiad yn unig, llofnododd 50 o ysgolion addewid Maethu Cymru, gan ymrwymo i ddod yn Bencampwyr Ysgolion a dangos ymrwymiad ar y cyd i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Y gobaith yw y bydd y bartneriaeth newydd hon yn codi ymwybyddiaeth o faethu, yn cryfhau'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr maeth a phlant, ac yn helpu i greu cymunedau lle gall plant, gofalwyr maeth a theuluoedd ffynnu.

Taflu Goleuni ar Arfer Da Rhanbarthol: Gogledd Cymru

Gweithio mewn Partneriaeth â Chyflogwyr

Mae gan Ogledd Cymru hanes o weithio mewn partneriaeth ledled y rhanbarth, ac mae'r dull cydweithredol hwn wedi'i atgyfnerthu ymhellach ers lansio Maethu Cymru. Drwy gydweithio ar draws y rhanbarth, mae awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru wedi cyflwyno amrywiaeth o fentrau llwyddiannus i godi ymwybyddiaeth, gan helpu i gryfhau'r cymorth i ofalwyr maeth awdurdodau lleol.

Mae pob un o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn gyflogwr sy'n cefnogi maethu, gan amlygu eu hymrwymiad i gefnogi gofalwyr maeth a'r plant maen nhw'n gofalu amdanynt. Mae pob awdurdod lleol yn y rhanbarth hefyd yn cynnig gostyngiad yn y Dreth Gyngor i ofalwyr maeth cymeradwy, gan gydnabod y cyfraniad hanfodol maen nhw'n ei wneud i fywydau plant a phobl ifanc lleol.

Drwy gydweithio, mae'r rhanbarth wedi ymgysylltu â nifer o gyflogwyr allweddol, gan eu denu i fod yn Bartneriaid Maethu Cymru ac i gynnig cymorth ychwanegol i weithwyr sy'n maethu. Mae'r rhain yn cynnwys Grŵp Llandrillo Menai – y sefydliad addysg bellach mwyaf yng Nghymru; Adra – cymdeithas dai fwyaf Gogledd Cymru; M-SParc – parc gwyddoniaeth pwrpasol cyntaf Cymru, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) – y bwrdd iechyd mwyaf yng Nghymru. BIPBC yw'r bwrdd iechyd cyntaf yng Nghymru i ddod yn Bartner Maethu Cymru ac ymrwymo i ddod yn gyflogwr sy'n cefnogi maethu.

Mae'r partneriaethau hyn wedi creu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo maethu drwy stondinau recriwtio, cyfathrebu â staff a sianeli sefydliadol ehangach, yn ogystal â chefnogi gofalwyr maeth awdurdodau lleol i gydbwyso eu rôl fel gofalwyr maeth â'u gwaith.





2.3 Cadw plant yn lleol

Wrth wraidd Maethu Cymru mae cred syml: lle bynnag y bo modd, dylai plant allu aros yn agos at y bobl, y lleoedd a'r cymunedau sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae gofalwyr maeth awdurdodau lleol wedi parhau i ddarparu'r rhan fwyaf o'r gofal maeth yng Nghymru. Er bod pwysau'n parhau ar draws y system ofal, mae Maethu Cymru wedi gweithio i gynnal capasiti maethu lleol a lleihau'r angen i symud plant ymhellach oddi wrth eu cymunedau cartref.

I lawer o blant, mae aros yn lleol yn golygu gallu cadw mewn cysylltiad ag aelodau o'r teulu, parhau i fynychu eu hysgol, cynnal cyfeillgarwch a chadw cysylltiadau diwylliannol a chymunedol pwysig.

Beth sydd wedi newid?

- Parhaodd gwasanaethau maethu awdurdodau lleol i ddarparu tua 71% o'r lleoliadau maethu
- Arhosodd 84% o'r plant yn ardal eu hawdurdod lleol pan gawsant eu lleoli gyda gofalwyr maeth awdurdodau lleol
- Arhosodd 27% o'r plant yn ardal eu hawdurdod lleol pan gawsant eu lleoli gydag Asiantaethau Maethu Annibynnol

Cerrig milltir allweddol

- Ehangu gweithgarwch recriwtio
- Cynnydd mewn trefniadau gyda phersonau cysylltiedig a pherthnasau
- Mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol
- Pwysau cynyddol yn sgil cymhlethdod anghenion plant

Taflu Goleuni ar Arfer Da Rhanbarthol: Gwent

Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd trwy Ddull Rhanbarthol

Sefydlwyd Cynllun Rhanbarthol Rhiant a Phlentyn Gwent drwy gyllid Llywodraeth Cymru i gynyddu argaeledd lleoliadau maeth lleol i rieni a phlant ledled y rhanbarth. Wedi'i gyflwyno gan dîm arbenigol penodedig, mae'r cynllun yn canolbwyntio ar recriwtio, asesu a chefnogi gofalwyr maeth i rieni a phlant, gan ddarparu cymorth i rieni biolegol ar yr un pryd. Mae ei nod yn syml: cadw rhieni a phlant gyda'i gilydd lle bynnag y mae'n ddiogel gwneud hynny, yn eu cymunedau eu hunain.

Trwy ddarparu gofalwyr maeth lleol a chymorth proffesiynol lleol, mae'r cynllun yn galluogi rhieni i ddatblygu eu sgiliau magu plant mewn amgylchedd diogel a meithringar tra bo asesiadau'n cael eu cynnal. Mae dull cryf o weithio fel "tîm o amgylch y teulu" yn sicrhau cymorth, goruchwyliaeth ac adolygiadau rheolaidd, gan helpu teuluoedd i gael y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Ers ei lansio, mae'r cynllun wedi datblygu rhaglen hyfforddi bwrpasol chwe diwrnod ar gyfer gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, cyflwyno model hyfforddi'r hyfforddwr i sicrhau cynaliadwyedd, a chynnal ymgyrchoedd marchnata rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth o faethu rhieni a phlant. Mae grŵp gorchwyl rhanbarthol, mesurau perfformiad newydd a fframwaith polisi drafft hefyd wedi'u sefydlu i gefnogi arferion cyson ledled y rhanbarth.

Wrth edrych tua'r dyfodol, nod y rhaglen yw cryfhau'r cymorth i ofalwyr maeth a rhieni biolegol ymhellach drwy grwpiau cymorth penodedig ac archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu fframwaith taliadau rhanbarthol.

Mae'r cynllun yn dangos sut mae cydweithio rhanbarthol wedi creu gwasanaethau maethu arloesol sy'n cadw teuluoedd gyda'i gilydd, yn cryfhau rhwydweithiau cymorth lleol ac yn gwella canlyniadau i blant a rhieni ledled Cymru.



2.4 Gwella sefydlogrwydd i blant

Dim ond rhan o'r dasg yw darparu cartref cariadus i blentyn. Mae sicrhau bod plant yn profi perthnasoedd sefydlog, meithringar a pharhaol yn hanfodol i wella canlyniadau.

Mae Maethu Cymru wedi canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau ac offer sy'n helpu plant i deimlo'n fwy parod, teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth a theimlo'n fwy cartrefol wrth symud i ofal maeth.

Un enghraifft yw'r menter Croeso Mawr, sy'n galluogi plant i ddysgu mwy am eu teulu maeth a'u cartref cyn symud. Mae'r dull hwn sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn helpu i leihau gorbryder a chefnogi pontio cadarnhaol i ofal.

Ochr yn ochr â hyn, mae Maethu Cymru wedi parhau i weithio gyda gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol i wella sefydlogrwydd lleoliadau.

Beth sydd wedi newid?

- Gostyngodd nifer y lleoliadau a ddaeth i ben yn annisgwyl o 9.2% i 8.3%.
- Cyflwyno Croeso Mawr ledled Cymru
- Crëwyd 750 o broffliau gofalwyr maeth
- Gwellodd sefydlogrwydd lleoliadau o 35%

Cerrig milltir allweddol

- Rhoi Croeso Mawr ar waith yn llawn ar draws y 22 awdurdod lleol
- Ychwanegu sefydlogrwydd lleoliadau fel mesur at y rhaglen waith
- Ehangu mentrau lles a chymorth
- Gwella'r broses o fonitro perfformiad

Taflu Goleuni ar Arfer Da Rhanbarthol: Canolbarth a Gorllewin Cymru

Trawsnewid Dysgu a Datblygu trwy Arloesi Digidol

Mae Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi datblygu diwylliant cryf o gydweithio ym maes dysgu a datblygu gofalwyr maeth. Trwy weithio mewn partneriaeth yn rheolaidd, mae awdurdodau lleol wedi rhannu adnoddau, arbenigedd ac arferion gorau i wella cyfleoedd dysgu i ofalwyr maeth ledled y rhanbarth.

Un o ganlyniadau mwyaf llwyddiannus y cydweithio hwn oedd datblygu eLyfr dysgu digidol arloesol. Cafodd yr adnodd ei greu'n wreiddiol gan un Swyddog Dysgu a Datblygu, gan ddod â gwybodaeth graidd am faethu ynghyd a'i chysylltu ag ystod eang o gyfleoedd dysgu, gan gynnwys podlediadau, gweminarau, modiwlau e-ddysgu, fideos a chanllawiau ysgrifenedig.

Dyluniwyd yr eLyfr i gydnabod bod gofalwyr maeth yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd. Trwy ddarparu llwybrau dysgu hyblyg a galluogi gofalwyr i gyrchu gwybodaeth mewn fformatau a oedd yn gweddu i'w harddulliau dysgu unigol, fe wnaeth helpu i wneud dysgu'n fwy hygyrch, diddorol a pherthnasol.

Mabwysiadwyd yr adnodd yn gyflym ar draws y rhanbarth, gydag awdurdodau lleol yn cydweithio i ehangu ei gynnwys, rhannu adnoddau a hyrwyddo ei ddefnydd ymhlith gofalwyr maeth. Ers hynny mae ei lwyddiant wedi arwain at ei fabwysiadu'n genedlaethol, gyda'r eLyfr bellach ar gael i ofalwyr maeth ledled Cymru.

Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, mae'r adnodd yn cael ei ailddatblygu ar hyn o bryd ochr yn ochr â Fframwaith Dysgu a Datblygu newydd Maethu Cymru, gyda chynlluniau i ehangu ei gynnwys i gefnogi pob agwedd ar ddatblygiad gofalwyr maeth.

Mae'r gwaith hwn yn dangos sut mae cydweithio drwy arloesi wedi creu adnoddau ymarferol sy'n gwella dysgu, yn cefnogi gofalwyr maeth ac, yn y pen draw, yn darparu cymorth gwell i blant a phobl ifanc ledled Cymru.

2.5 Meithrin cydweithrediad cenedlaethol

Efallai mai'r newid mwyaf arwyddocaol yw creu seilwaith cenedlaethol sy'n gallu cefnogi a chryfhau gwasanaethau maethu ledled Cymru.

Ers 2021, mae Maethu Cymru wedi sefydlu trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli perfformiad, datblygu'r gweithlu, marchnata a chydweithredu rhanbarthol. Mae'r hyn a ddechreuodd fel rhaglen genedlaethol newydd wedi datblygu i fod yn bartneriaeth sefydledig sy'n cynnwys pob un o'r 22 awdurdod lleol.

Mae Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol, Swyddogion Marchnata Rhanbarthol a Swyddogion Recriwtio penodedig wedi darparu capasiti ychwanegol ac wedi galluogi gwasanaethau lleol i elwa ar adnoddau cenedlaethol a rennir, gan gynnal eu hunaniaeth a'u perthnasoedd lleol ar yr un pryd.

Datblygwyd grwpiau cenedlaethol i gefnogi'r broses o rannu rhwystrau a syniadau, cefnogi cydweithio a llywio cyfeiriad Maethu Cymru.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyfarfodydd rheolwyr tîm misol
- Fforwm Rheolwyr Gwasanaeth
- Grŵp llywio Arweinwyr Dysgu a Datblygu
- Grŵp arweinwyr cyfathrebu
- Rhwydwaith swyddogion recriwtio

Roedd sefydlu Cyd-bwyllgor y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru yn 2024 yn garreg filltir bwysig arall, gan gryfhau atebolrwydd a darparu llywodraethu ar ran pob awdurdod lleol.

Beth sydd wedi newid?

- Sefydlu trefniadau llywodraethu cenedlaethol
- Creu Cyd-bwyllgor
- Creu fforymau cenedlaethol
- Cryfhau'r fframwaith perfformiad

Cerrig milltir allweddol

- Penodi chwe Swyddog Marchnata Rhanbarthol
- Penodi 22 o Swyddogion Recriwtio
- Ymgorffori Rhwydwaith Swyddogion Recriwtio ledled Cymru
- Rhoi trefniadau adrodd ar berfformiad bob chwarter ar waith yn genedlaethol
- Ymgorffori'r model cydweithio rhanbarthol yn llawn

2.6 Cerrig milltir allweddol 2025-26

1. Sefydlu 750 o broffiliau gofalwyr maeth drwy blatfform Croeso Mawr
2. Sicrhau 72 o eitemau sylw yn y cyfryngau cenedlaethol, gan godi ymwybyddiaeth o wasanaethau maethu awdurdodau lleol ledled Cymru
3. Cyrraedd y tri safle uchaf ar Google ar gyfer 54 o brif dermau chwilio sy'n ymwneud â maethu
4. Lansio'r Porth Dysgu a Datblygu cenedlaethol ar gyfer gofalwyr maeth
5. Sicrhau cytundeb ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol i ehangu cyfleoedd hyfforddi a chymorth gan gymheiriaid i ofalwyr sy'n berthnasau, ni waeth ble maen nhw'n byw

Mae cyflawniadau nodedig eraill yn cynnwys:

Cryfhau Presenoldeb Digidol Maethu Cymru ac yn y Cyfryngau

- Gwneud gwelliannau sylweddol i wefan genedlaethol Maethu Cymru, gan gynnwys gwella profiad defnyddwyr wrth ddefnyddio'r wefan, swyddogaeth ymholiadau newydd, tudalennau gwybodaeth am daliadau awdurdodau lleol ac optimeiddio parhaus ar gyfer peiriannau chwilio (SEO).
- Rhoi system marchnata drwy e-bost GovDelivery ar waith yn llawn ar draws awdurdodau lleol, gan ddarparu 42 o fwletinau recriwtio ac ymgysylltu yn ystod 2025–26.
- Cynyddu'r defnydd o ap atgyfeirio Care Friends o 26%, gan gyfrannu at gymeradwyo 31 o ofalwyr maeth

Datblygu Cymorth a Dysgu i Ofalwyr Maeth

- Dechrau adolygu'r Fframwaith Dysgu a Datblygu
- Creu Rhaglen Sefydlu Genedlaethol i Ofalwyr Maeth er mwyn sicrhau profiad mwy cyson i ofalwyr sydd newydd gael eu cymeradwyo ledled Cymru.
- Cyhoeddi'r Canllaw Arfer Da ar gyfer Asesu a Chefnogi Gofalwyr sy'n Berthnasau

Gwella Perfformiad a Rheoli Data

- Cyflwyno templed adrodd newydd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Maethu Cymru i wella cysondeb ac ansawdd data perfformiad ledled Cymru.
- Dechrau caffael system ganolog ar gyfer monitro ac adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol er mwyn gwella rheoli perfformiad yn genedlaethol.



cipolwg ar bum mlynedd





cynnydd o **150%** yn nifer yr ymweliadau â'r wefan

dyrannu **1,249** o asesiadau

cymeradwyo **706** o aelwydydd maethu prif ffrwd



-80 gostyngiad yn y golled net o ofalwyr maeth prif ffrwd o **-6**

derbyn **8,471** o ymholiadau

1,178 o gymeradwyaethau maethu ar gyfer personau cysylltiedig

cefnogi **8,271** o blant drwy ofalwyr maeth awdurdodau lleol

672 o gymeradwyaethau SGO

cynnydd o **15%** mewn cymeradwyaethau prif ffrwd



gostyngiad o **39%** yn nifer y lleoliadau a ddaeth i ben yn annisgwyl

lansio **6** phrosiect cenedlaethol

22 o awdurdodau lleol yn cydweithio drwy un rhwydwaith cenedlaethol

"Rydw i wedi bod yn rhan o lawer o'r gwaith sydd wedi'i ddatblygu drwy Maethu Cymru. Rwy'n hapus i helpu, gan fod cydweithio yn rhoi llwyfan i leisiau gofalwyr maeth gael eu clywed ac yn hyrwyddo ein delwedd broffesiynol.

Trwy helpu i sicrhau canlyniadau gwell i'n pobl ifanc, mae Maethu Cymru wedi helpu i lunio newid cenedlaethol, gan gynnwys y canllaw arferion da ar gyfer y flwyddyn gyntaf, sydd wedi llywio'r cymorth a ddarperir i'n gofalwyr maeth newydd. Yn fy awdurdod lleol i, mae recriwtio ar gynnydd, mae'n galonogol iawn gweld gofalwyr maeth newydd yn cael eu cymeradwyo a gallu eu cefnogi drwy fy rôl fel gofalwr maeth arloesol."

Tracy, Foster Carer, RCT



pum mlynedd mewn niferoedd

- Ymwybyddiaeth brand i fyny o **6%** i **23%**
- **944,000+** o ymweliadau i'r wefan
- **8,374** o ymholiadau
- **706** o gymeradwyaethau gofalwyr maeth newydd
- Canfod cartrefi i dros **26,500+** o blant
- Cefnogi dros **25,000+** o blant mewn gofal maeth
- Maethu Cymru yn gofalu am **77%** o'r plant mewn gofal maeth (gofalwyr maeth prif ffrwd a gofalwyr sy'n bersonau cysylltiedig)
- Gostyngiad o **39%** yn nifer y lleoliadau a ddaeth i ben yn annisgwyl
- Cynnydd o **58%** mewn trefniadau maethu gan berthnasau o dan Reoliad 26

Mae Maethu Cymru wedi trawsnewid sut mae maethu'n cael ei hyrwyddo, ei ddarparu a'i gefnogi ledled Cymru. Y tu ôl i bob ystadegyn mae plentyn, teulu maeth ac awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu sefydlogrwydd, ymdeimlad o berthyn a chyfleoedd.

4.1 Cyrraedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen

944,455 o ymweliadau i'r wefan

Ymwelwyd â gwefannau Maethu Cymru bron i filiwn o weithiau yn ystod ein pum mlynedd gyntaf, gan helpu miloedd o bobl i ddysgu mwy am faethu a chymryd y cam cyntaf tuag at ddod yn ofalwyr maeth. Bu bron i nifer yr ymweliadau â'r wefan dreblu rhwng 2021–22 a 2025–26, gan adlewyrchu cryfder a chydnabyddiaeth gynyddol o frand Maethu Cymru.

Blwyddyn	Gwefan Genedlaethol	Gwefannau Lleol	Cyfanswm
2021-22	30,284	59,475	89,759
2022-23	104,256	89,626	193,882
2023-24	86,159	106,713	192,872
2024-25	72,742	138,012	210,754
2025-26	109,387	147,801	257,188
Cyfanswm	**402,828**	**541,627**	**944,455**

257,188 o ymweliadau yn 2025-26, bron i dair gwaith y nifer a gofnodwyd yn y flwyddyn lansio.

4.2 Meithrin cymuned faethu Cymru ar gyfer y dyfodol

8,374 o ymholiadau am faethu

Cysylltodd miloedd o bobl â Maethu Cymru i gael rhagor o wybodaeth am ddod yn ofalwyr maeth. Arweiniodd hyn at ddechrau dros 1,280 o asesiadau a chymeradwyo 706 o ofalwyr maeth newydd. Mae gweithgarwch recriwtio wedi cynyddu'n sylweddol ers y lansiad, gyda nifer yr asesiadau'n cyrraedd ei lefel uchaf yn 2025–26.

Blwyddyn	Ymholiadau	Ymweliadau Cychwynnol	Asesiadau a Ddechreuwyd
2021-22	1,483	489	263
2022-23	1,425	418	206
2023-24	1,722	401	237
2024-25	1,906	516	271
2025-26	1,838	446	307
Cyfanswm	**8,374**	**2,270**	**1,284**

Aeth 1 o bob 6 ymholiad ymlaen i asesiad yn 2025-26.

4.3 Datblygu gofal maeth


706 o gymeradwyaethau gofalwyr maeth newydd

Er gwaethaf y pwysau o ran recriwtio a chadw gofalwyr maeth ar draws y sector maethu, cymeradwyodd Maethu Cymru 706 o aelwydydd maethu newydd yn ystod ei bum mlynedd gyntaf. Ar yr un pryd, lleihaodd y bwlch rhwng cymeradwyo a therfynu yn sylweddol, gan gyfrannu at ein nodau o gynyddu digonolrwydd gwasanaethau maethu awdurdodau lleol.

Blwyddyn	Cymeradwyaethau	Terfyniadau	Newid Net
2021-22	169	206	-37
2022-23	115	175	-60
2023-24	126	171	-45
2024-25	151	178	-27
2025-26	145	151	-6
Cyfanswm	**706**	**881**	**-175**

Un o'r tueddiadau mwyaf calonogol yw'r gwelliant o ran cadw gofalwyr maeth. Yn 2022-23, y gwahaniaeth rhwng cymeradwyo a therfynu oedd 60 o aelwydydd. Erbyn 2025-26 roedd hyn wedi gostwng i chwe aelwyd yn unig. Fodd bynnag, er gwaethaf yr ymdrechion gorau i recriwtio a chadw gofalwyr maeth, mae'r golled net gyffredinol yn dangos y bydd sicrhau digon o leoliadau yn dod yn fwy heriol oni bai bod awdurdodau lleol yn dechrau cynyddu nifer y gofalwyr maeth yn sylweddol a lleihau eu dibyniaeth ar leoliadau allanol a phreswyl.

Cymeradwywyd 96 o aelwydydd maethu newydd am bob 100 wnaeth adael yn 2025-26.



4.4 Paru plant â'r cartrefi cywir

26,564 o Leoliadau a symudiadau rhwng lleoliadau

Bob blwyddyn, mae miloedd o blant angen gofal maeth am y tro cyntaf neu mae angen iddynt symud yn ôl y bwriad i leoliad arall er mwyn diwallu eu hanghenion yn well. Mae nifer y lleoliadau wedi bod yn fwy na 5,000 bob blwyddyn, gan sicrhau bod plant yn gallu cael y gofal yr oedd ei angen arnynt pan oedd ei angen arnynt.

Blwyddyn	Cyfanswm y Lleoliadau a Wnaed
2021-22	4,803
2022-23	5,520
2023-24	5,334
2024-25	5,451
2025-26	5,456
Cyfanswm	**26,564**

Mae'r angen am gartrefi maeth wedi parhau'n gyson uchel drwy gydol y cyfnod, gan ddangos maint y system faethu a gallu gwasanaethau lleol ledled Cymru i ymateb i anghenion. Gwnaed mwy na 5,400 o leoliadau neu symudiadau rhwng lleoliadau yn 2025-26 yn unig.



4.5 Maethu Cymru wrth wraidd maethu yng Nghymru

Mae Maethu Cymru yn gofalu am fwy na thri chwarter y plant mewn gofal maeth (gofalwyr maeth prif ffrwd a gofalwyr sy'n bersonau cysylltiedig)

Blwyddyn	Maethu Cymru	Y Trydydd Sector Annibynnol	Y Sector Masnachol Annibynnol
2021-22	3,629	126	1,173
2022-23	3,679	152	1,134
2023-24	3,605	146	1,102
2024-25	3,637	220	1,006
2025-26	3,525	207	831

Sut y darparwyd gofal

Blwyddyn	Maethu Cymru a Phobl Gysylltiedig	Y Sector Annibynnol
2021-22	73.7%	26.3%
2022-23	74.2%	25.8%
2023-24	74.3%	25.7%
2024-25	74.9%	25.1%
2025-26	77.3%	22.7%

Trwy gydol pum mlynedd gyntaf Maethu Cymru, gofalwyd dros 3,500 o blant bob blwyddyn gan ofalwyr maeth awdurdodau lleol, gan gynnwys gofalwyr prif ffrwd a gofalwyr cysylltiedig. Cynyddodd cyfran y plant maeth sy'n derbyn gofal o fewn y trefniadau hyn o 73% i 77% dros y cyfnod. Dyma un o'r dangosyddion cliriaf o gynnydd. Er bod y galw am ofal maeth wedi parhau i fod yn uchel, mae cyfran uwch o blant bellach yn cael gofal gan ofalwyr maeth prif ffrwd awdurdodau lleol ac o fewn eu rhwydweithiau teuluol ehangach. Gostyngodd dibyniaeth ar asiantaethau maethu masnachol o bron i 30% yn ystod y cyfnod.

Mae bron i 8 o bob 10 o blant maeth bellach yn derbyn gofal maeth gan ofalwyr Maethu Cymru.

4.6 Cefnogi plant hŷn

Mae hanner yr holl ofal maeth yn ymwneud â phobl ifanc yn eu harddegau

Blwyddyn	0-4 mlwydd oed	5-10 mlwydd oed	11+ mlwydd oed
2021-22	30.9%	19.6%	49.5%
2022-23	29.0%	20.8%	50.2%
2023-24	29.2%	17.9%	52.9%
2024-25	28.5%	22.2%	49.3%
2025-26	27.0%	21.9%	51.1%

Ym mhob blwyddyn, pobl ifanc yn eu harddegau oedd y grŵp mwyaf yr oedd angen gofal maeth arnynt. Mae'r data yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynyddol recriwtio a chefnogi gofalwyr ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc.

Roedd mwy na 13,400 o symudiadau rhwng lleoliadau yn ymwneud â phobl ifanc 11 mlwydd oed a hŷn.

4.7 Gwella sefydlogrwydd i blant

Gostyngiad o 39% yn nifer y lleoliadau a ddaeth i ben yn annisgwyl

Blwyddyn	Lleoliadau a Ddaeth i Ben yn Annisgwyl
2021-22	451
2022-23	619
2023-24	508
2024-25	317
2025-26	378

Er bod amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn yn parhau, mae'r darlun cyffredinol yn dangos bod sefydlogrwydd lleoliadau'n gwella. Gostyngodd nifer y lleoliadau a ddaeth i ben yn annisgwyl o 39% o gymharu â'r lefel uchaf yn 2022–23, sy'n golygu bod mwy o blant yn cael profiad o drefniadau gofal cyson a sefydlog.

302 yn llai o leoliadau a ddaeth i ben yn annisgwyl o gymharu â'r lefel uchaf a gofnodwyd yn 2022–23.



4.8 Gofal gan berthnasau a phersonau cysylltiedig – Cadw plant mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u cymunedau

Roedd mwy na 1,600 o blant yn byw gyda gofalwyr maeth sy'n bersonau cysylltiedig yn 2025–26, ac mae tua un o bob tri phlentyn mewn gofal maeth yng Nghymru bellach yn derbyn gofal gan ofalwr maeth sy'n berthynas neu o dan drefniant Rheoliad 26

Mae cadw plant mewn cysylltiad â phobl maen nhw eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol, ac mae gofal gan deulu a ffrindiau yn parhau i chwarae rhan hanfodol yng Nghymru. Er bod nifer y lleoliadau gyda phersonau cysylltiedig wedi aros yn sefydlog drwy gydol y cyfnod, cynyddodd nifer y rhai a gymeradwywyd dros dro o dan drefniadau Rheoliad 26 o 58%, gan helpu mwy o blant i gadw mewn cysylltiad â phobl maen nhw'n eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt yn ystod cyfnodau o argyfwng.

Plant sy'n Byw gyda Gofalwyr sy'n Bersonau Cysylltiedig

Blwyddyn	Personau Cysylltiedig	Rheoliad 26	Cyfanswm
2021-22	1,345	262	**1,607**
2022-23	1,383	290	**1,673**
2023-24	1,338	332	**1,670**
2024-25	1,320	386	**1,706**
2025-26	1,249	415	**1,664**

Negeseuon Allweddol

Rhwng 2021-22 a 2025-26:

- Cynyddodd nifer y trefniadau o dan Reoliad 26 o 58% (o 262 i 415).
- Roedd mwy na 1,600 o blant bob blwyddyn yn cael gofal gan ofalwyr sy'n bobl gysylltiedig.
- Mae gofal gan bobl gysylltiedig bellach yn cyfrif am dros draean o'r holl blant mewn gofal maeth yng Nghymru.

Mae hyn yn dangos yn glir bod trefniadau gofal sy'n seiliedig ar deuluoedd yn cael eu defnyddio fwyfwy.

4.9 Cynnydd mewn gweithgarwch asesu a chymeradwyo


Cymeradwywyd 1,633 o aelwydydd personau cysylltiedig

Mae awdurdodau lleol wedi parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn asesu a chefnogi aelodau o'r teulu a ffrindiau sy'n barod i ofalu am blant pan na allant aros gartref. Ers 2021, cwblhawyd mwy na 3,450 o asesiadau hyfywedd a chymeradwywyd dros 1,600 o aelwydydd pobl gysylltiedig.

Gweithgarwch Asesu a Chymeradwyo

Blwyddyn	Asesiadau Hyfywedd Cadarnhaol	Asesiadau Llawn a Gymeradwywyd
2021-22	667	286
2022-23	534	308
2023-24	548	350
2024-25	731	289
2025-26	794	386
Cyfanswm	**3,278**	**1,619**

Cynyddodd nifer yr asesiadau hyfywedd cadarnhaol o 667 i 759 dros y cyfnod, tra cyrhaeddodd nifer y cymeradwyaethau ei lefel uchaf yn 2025-26, gyda 386 o aelwydydd pobl gysylltiedig yn cael eu cymeradwyo. Mae hyn yn dangos gallu cynyddol ledled Cymru i nodi a chefnogi aelodau o'r teulu sy'n gallu darparu gofal diogel a sefydlog.



4.10 Sicrhau sefydlogrwydd trwy ofal gan berthnasau

Mae mwy na 900 o blant yn derbyn gofal trwy gymeradwyaethau SGO a phobl gysylltiedig

Mae'r broses o asesu pobl gysylltiedig nid yn unig wedi cefnogi lleoliadau maeth, ond hefyd wedi galluogi plant i gael sefydlogrwydd hirdymor drwy drefniadau Gwarcheidiaeth Arbennig (SGO). Dros y pum mlynedd, crëwyd mwy na 2,200 o gyfleoedd i blant aros gyda phobl maen nhw'n eu hadnabod drwy gymeradwyo aelwydydd pobl gysylltiedig a SGO.

Lleoliadau a Grëwyd yn Dilyn Cymeradwyo

Blwyddyn	Lleoliadau a Gynigiwyd gan Bobl Gysylltiedig	Lleoliadau a Gynigiwyd drwy SGO
2021-22	240	153
2022-23	309	155
2023-24	375	189
2024-25	353	195
2025-26	443	230
Cyfanswm	**1,720**	**922**

Creodd cymeradwyaethau pobl gysylltiedig ac SGO gapasiti ar gyfer mwy na 2,500 o drefniadau gofal sy'n seiliedig ar deuluoedd. Roedd dros 900 o'r cyfleoedd hyn yn gysylltiedig yn uniongyrchol â threfniadau Gwarcheidiaeth Arbennig, gan adlewyrchu'r rôl bwysig mae'r gorchmynion hyn yn ei chwarae wrth sicrhau sefydlogrwydd hirdymor i blant o fewn eu rhwydweithiau teuluol ehangach.

Cynyddodd nifer y cyfleoedd lleoli a grëwyd drwy gymeradwyo Gwarcheidiaeth Arbennig o 153 yn 2021-22 i 230 y flwyddyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan ddangos effeithiolrwydd cynyddol llwybrau gofal gan berthnasau ledled Cymru.

1,664
Plant a oedd yn byw gyda gofalwyr sy'n bobl gysylltiedig yn 2025-26.

1,720
Aelwydydd pobl gysylltiedig a gymerad-wywyd.

58%
Cynnydd mewn trefniadau o dan Reoliad 26 ers 2021-22.



4.11 Plant mewn gofal preswyl

Cynyddodd nifer y plant mewn cartrefi preswyl o bron i 60%, gyda phlant 11 oed a hŷn yn cyfrif am 66% o'r lleoliadau preswyl hynny.

Nifer y plant mewn gofal preswyl

Blwyddyn	Gofal Preswyl Allanol	Gofal Preswyl Awdurdodau Lleol	Lleoliadau Heb eu Cofrestru	Cyfanswm y Lleoliadau o Fath Preswyl*
2021-22	495	75	-	570
2022-23	594	77	-	671
2023-24	645	105	59	809
2024-25	678	118	35	831
2025-26	650	179	76	905

Ar 31 Mawrth bob blwyddyn, cynyddodd nifer y plant a leolwyd mewn lleoliadau preswyl yn sylweddol ledled Cymru. Cynyddodd nifer y lleoliadau preswyl allanol o 495 o blant yn 2021-22 i 650 yn 2025-26, sef cynnydd o 31%. Dros yr un cyfnod, cynyddodd nifer y plant a leolwyd mewn cartrefi preswyl awdurdodau lleol o 75 i 179, sef cynnydd o 139%.

Cynyddodd nifer y lleoliadau preswyl bron i 60% dros y cyfnod o bum mlynedd, gan godi o 570 o blant mewn lleoliadau preswyl yn 2021-22 i 905 yn 2025-26. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu anghenion plant sy'n mynd yn fwyfwy cymhleth, yn ogystal â'r heriau sylweddol o ran sicrhau digon o leoliadau maeth a gofal sy'n seiliedig ar deuluoedd i rai pobl ifanc. Mae'r cynnydd hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymyrraeth gynnar a sefydlogrwydd lleoliadau, yn ogystal â'r buddsoddiad sydd ei angen i gynyddu darpariaeth gofal maeth yn sylweddol er mwyn atal plant rhag gorfod symud i leoliadau preswyl.

prif uchafbwyntiau ariannol



Mae'r costau sy'n gysylltiedig â lleoliadau plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf; mae'r gyfran fwyaf o'r gwariant hwn fel arfer yn mynd ar ofal maeth.

Yn 2025/26, gwariwyd £149.66 miliwn ar wasanaethau maethu a ddarparwyd yn uniongyrchol ac a gomisiynwyd. Mae hyn yn cynnwys £120.76 miliwn ar gostau lleoliadau a £28.85 miliwn ar gymorth gwasanaethau, gan gynnwys costau staffio, recriwtio a chadw staff, a gweinyddu.

O ran costau lleoliad, gofal maeth Awdurdodau Lleol oedd y mwyaf cost-effeithiol o'r lleoliadau maethu o fewn y sector yng Nghymru. Cost wythnosol gyfartalog lleoliad maeth prif ffrwd awdurdod lleol oedd £542 (gan gynnwys costau lleoliadau a chostau cymorth y gwasanaeth cyfan). Cost wythnosol gyfartalog lleoliad gyda phobl gysylltiedig drwy awdurdod lleol oedd £413 (gan gynnwys costau lleoliadau a chostau cymorth y gwasanaeth cyfan).

Cost wythnosol gyfartalog lleoliad gyda sefydliad annibynnol yn y trydydd sector oedd £873, a chost wythnosol gyfartalog lleoliad masnachol annibynnol oedd £1,039 (gan gynnwys yr holl gostau a godwyd ar yr awdurdod lleol).

Ar gyfartaledd, mae cost lleoli plentyn drwy asiantaeth faethu annibynnol fasnachol o leiaf £25,844 yn ychwanegol fesul plentyn y flwyddyn. Mae lleoliadau gydag asiantaethau maethu annibynnol masnachol yn cyfrif am 41.6% o holl gostau lleoliadau maeth, er mai dim ond 19.5% o gyfanswm yr wythnosau o ofal maen nhw'n eu darparu.

Mae costau wythnosol cyfartalog trefniadau Rhiant a Phlentyn yn dilyn patrwm tebyg:

£8,788 ar gyfer darpariaeth awdurdodau lleol, £2,203 ar gyfer darpariaeth asiantaethau maethu annibynnol masnachol a £5,816 ar gyfer lleoliadau preswyl, ac mae cost ychwanegol lleoli trefniant Rhiant a Phlentyn gydag asiantaeth faethu annibynnol fasnachol yn £16,960 yn fwy ar gyfer lleoliad 12 wythnos, ac yn £60,336 yn fwy mewn lleoliad preswyl am yr un cyfnod.

Daw'r rhan fwyaf o'r cyllid sy'n gysylltiedig â gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol sy'n rhan o Maethu Cymru o gyllidebau'r awdurdodau lleol eu hunain, fodd bynnag, mae awdurdodau lleol, drwy'r Grant Cynnal Refeniw, a Llywodraeth Cymru, drwy gyllid grant, wedi ariannu rhywfaint o seilwaith cenedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal ag adnoddau newydd ac ychwanegol mewn awdurdodau lleol. Yn 2025-26, roedd hyn yn cyfateb i tua 1.4% o gyfanswm y gwariant ar ofal maeth yng Nghymru; mae llawer o gyllid grant Llywodraeth Cymru, a rhywfaint o'r Grant Cynnal Refeniw, ar gael i awdurdodau lleol drwy Maethu Cymru.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyllid sydd ar gael i Maethu Cymru ar gyfer 2025/26.

Cyllideb Maethu Cymru 2025/26

Ffrwd a Ffynhonnell Incwm	Dyraniad Gwariant		Cyfanswm
CLlLC – Dyraniad o'r Grant Cynnal Refeniw **£400,670**	Costau staff, swyddfa a chydlynu cenedlaethol. Cyllid tuag at 6 Rheolwr Datblygu Rhanbarthol a gyflogir gan awdurdodau lleol arweiniol.	£415,051 (gorwariant wedi'i dalu o'r gronfa wrth gefn)	**£415,051**
Grant Llywodraeth Cymru 'Brand Cymru Gyfan' **£558,700**	Staffio a seilwaith	£112,305	**£558,700**
	Cyllid tuag at 6 Swyddog Marchnata Rhanbarthol a gyflogir gan awdurdodau lleol arweiniol	£135,960	
	Cynnal a chadw a datblygu Gwefan Genedlaethol	£14,343	
	Marchnata a chysylltiadau cyhoeddus cenedlaethol a lleol	£296,092	
Grant Llywodraeth Cymru 'Cefnogi Maethu Cymru' **£2,137,249**	Staffio a seilwaith	£219,635	**£2,137,249**
	Swyddogion Recriwtio Awdurdodau Lleol	£841,390	
	Recriwtio, Asesu a Chymorth Awdurdodau Lleol	£956,122	
	Prosiectau cenedlaethol (Marchnata, Proffiliau Gofalwyr Maeth a Dysgu a Datblygu)	£120,102	
Cyfanswm yr Incwm			**£3,096,619**
Cyfanswm y Gwariant			**£3,111,000**

pum mlynedd mewn straeon



Y tu ôl i bob ystadegyn yn yr adroddiad hwn mae plentyn, gofalwr maeth, teulu neu weithiwr proffesiynol y mae maethu wedi cael effaith ar ei fywyd.

Ers ei lansio, mae Maethu Cymru wedi cefnogi miloedd o blant a phobl ifanc drwy ymroddiad gofalwyr maeth awdurdodau lleol, gweithwyr cymdeithasol a sefydliadau partner ledled Cymru. Er bod data perfformiad yn ein helpu i ddeall y cynnydd a wnaed, y straeon personol hyn sy'n dangos orau y gwahaniaeth y mae maethu yn ei wneud.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn tynnu sylw at rai o'r profiadau sydd wedi siapio taith Maethu Cymru dros y pum mlynedd diwethaf.

Croeso Gwell: Helpu plant i deimlo'n gartrefol cyn iddynt gyrraedd

Gall symud i ofal maeth fod yn un o'r adegau mwyaf ansicr ym mywyd plentyn. Yn aml, bydd plant yn pendroni i lle maen nhw'n mynd, gyda phwy y byddant yn byw a sut le fydd eu cartref newydd. Er mwyn helpu i leihau'r ansicrwydd hwn, datblygodd Maethu Cymru 'Croeso Mawr', offeryn syml ond effeithiol sy'n cyflwyno plant i'w teulu maeth a'u cartref newydd cyn iddynt gyrraedd. Trwy rannu ffotograffau, cyflwyniadau personol a gwybodaeth am fywyd teuluol bob dydd, gall plant ddechrau creu darlun o'u cartref newydd cyn iddynt gerdded drwy'r drws.

Dywedodd gweithwyr cymdeithasol fod Croeso Mawr wedi helpu plant i deimlo'n fwy parod ar gyfer cyfnod pontio a all fod yn anodd. Roedd gallu gweld eu hystafell wely, dysgu am y teulu maeth a deall pwy fyddai yno yn helpu i ateb cwestiynau cyn iddynt droi'n bryderon.

Dywedodd un gweithiwr cymdeithasol:

"Roedd yn helpu i ateb cwestiynau cyn i'r plentyn hyd yn oed eu gofyn. Roeddent yn gallu gweld eu hystafell, deall pwy fyddai yno a dechrau dychmygu eu hunain yn y cartref."

Roedd yr adnodd hefyd yn werthfawr i weithwyr proffesiynol a oedd yn cefnogi plant wrth iddynt symud rhwng lleoliadau. Trwy ddarparu gwybodaeth na fyddai ar gael fel arfer, roedd yn helpu gweithwyr cymdeithasol i baratoi plant, lleddfu pryderon a chael sgyrsiau mwy ystyrlon am yr hyn i'w ddisgwyl.

Fel yr esboniodd gweithiwr cymdeithasol arall:

"Roedd yn dda iawn i helpu'r plant i ddeall at bwy roedden nhw'n mynd, yn hytrach na dim ond gwybod enw. Fe wnaeth hefyd fy helpu i fel gweithiwr cymdeithasol y plentyn i leddfu rhai o'r pryderon oedd ganddynt am symud."

I lawer o blant, roedd gweld ffotograffau o'r cartref a'r teulu yn troi ansicrwydd yn chwilfrydedd a chyffro. Disgrifiodd un gweithiwr cymdeithasol yr effaith ar berson ifanc a oedd yn well ganddo wybodaeth weledol:

"Roedd mor ddefnyddiol iddo. Roedd yn galonogol iawn, yn hawdd ei ddefnyddio ac yn hawdd ei ddarllen. Fe wnaeth ei helpu i ddeall y newid yn weledol, sef yr hyn sy'n well ganddo. Roedd yn gwneud sgwrs anodd gymaint yn haws."

Mae'r adborth gan blant wedi bod yr un mor galonogol. Dywedodd gweithwyr cymdeithasol fod plant wedi mwynhau edrych drwy'r proffiliau a dysgu am eu gofalwyr maeth cyn cwrdd â nhw.

"Roedd y plant yn mwynhau edrych drwy'r proffil, ei ddarllen, gweld y lluniau a dysgu mwy am y gofalwyr maeth cyn cwrdd â nhw. Roedden nhw mor gyffrous wedyn ac mae'n bendant wedi helpu'r daith i leoli."

Er bod Croeso Mawr yn syniad syml, mae'n dangos sut y gall newidiadau bach gael effaith sylweddol. Trwy helpu plant i deimlo eu bod yn cael gwybodaeth, sicrwydd a chroeso cyn iddynt gyrraedd, mae'n gwella'r profiad o ddod i ofal maeth ac yn sicrhau bod ymdeimlad plentyn o berthyn yn dechrau cyn iddo hyd yn oed gamu drwy'r drws ffrynt.

Llais cryfach: Profiad person ifanc sydd â phrofiad o ofal

Roedd Sophia yn arfer teimlo cywilydd wrth ddweud wrth bobl ei bod mewn gofal.

Rydym ni wedi rhoi lle diogel a chymorth i Sophia a phobl ifanc eraill sydd â phrofiad o ofal rannu eu straeon.

Ers iddi ddarlunio ein llyfr coginio yn 2024, hyd at rannu ei stori yn y wasg genedlaethol ac ar y teledu, rydym ni'n falch o weld Sophia yn magu hyder fel siaradwr cyhoeddus ac arbenigwr drwy brofiad personol ar yr hyn sydd ei angen ar blant gan eu gofalwyr maeth.

Stori Tom: Pam mae aros yn lleol yn bwysig

Fel plentyn mewn gofal maeth, profodd Tom drosto'i hun y gwahaniaeth y gall aros yn lleol ei wneud. Roedd gallu aros yn yr un ysgol, cynnal cyfeillgarwch a chadw mewn cysylltiad â'i gymuned yn rhoi'r sefydlogrwydd yr oedd ei angen arno i lwyddo. Fe wnaeth y sefydlogrwydd hwnnw ei helpu i barhau â'i addysg, mynd ymlaen i'r brifysgol a meithrin gyrfa lwyddiannus fel darlithydd.

Heddiw, mae Tom yn rhoi'r un cyfle i blant drwy ei rôl fel gofalwr maeth gyda Maethu Cymru Sir y Fflint. Ynghyd â'i wraig a'i blant, mae'n darparu gofal maeth tymor byr i blant lleol, gan eu helpu i aros yn agos at y bobl, ysgolion a chymunedau sydd bwysicaf iddynt.

Mae Tom yn credu na ddylai plant orfod colli eu hunaniaeth, eu cyfeillgarwch neu eu haddysg dim ond oherwydd eu bod yn mynd i ofal. Mae ei stori yn adlewyrchu un o brif uchelgeisiau Maethu Cymru: sicrhau bod mwy o blant yn gallu cadw cysylltiad â'r lleoedd a'r perthnasoedd sy'n eu helpu i ffynnu.

"Rwy'n credu bod cadw plant yn lleol, yn agos at eu hysgolion, eu rhwydweithiau teuluol a'u ffrindiau, yn bwysig iawn er mwyn sicrhau parhad a sefydlogrwydd iddynt."

Stori Donna: O filltiroedd i ffwrdd i garreg fy nrws

Ar ôl bod yn ofalwr maeth am ddeuddeng mlynedd gydag asiantaeth faethu annibynnol, penderfynodd Donna drosglwyddo i Maethu Cymru Ynys Môn. Mae ei phrofiad yn amlygu'r gwahaniaeth y gall maethu drwy awdurdod lleol ei wneud i ofalwyr a phlant fel ei gilydd.

Cyn trosglwyddo, roedd y plant yr oedd hi'n gofalu amdanynt yn aml yn byw ymhell o'u hysgolion a'u rhwydweithiau cymorth. Roedd newidiadau mynych o ran gweithwyr cymdeithasol a chymorth lleol cyfyngedig yn ei gwneud yn anodd meithrin perthnasoedd cyson. Roedd Donna eisiau rhywbeth gwahanol: gwasanaeth maethu a oedd yn teimlo'n lleol, yn gysylltiedig â'r gymuned ac yn canolbwyntio ar anghenion plant.

Ers ymuno â Maethu Cymru, mae'n dweud ei bod yn teimlo'n rhan o gymuned go iawn. Mae'r plant y mae'n gofalu amdanynt yn mynychu ysgolion lleol, mae cymorth wrth law, ac mae hi'n cadw cysylltiad rheolaidd â gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol sy'n ei hadnabod hi a'r plant yn dda.

Mae stori Donna yn crynhoi un o brif gyflawniadau Maethu Cymru. Meithrin gwasanaethau maethu lleol cryfach sy'n galluogi plant i aros yn agosach at eu cartrefi a gofalwyr i deimlo'n rhan o rwydwaith gwasanaethau cyhoeddus cefnogol.

"Y gwahaniaeth mwyaf yw cymaint rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi erbyn hyn. Mae popeth yn teimlo fel pe bai'n canolbwyntio llawer mwy ar anghenion y plant."

Stori Delwara: Perthnasoedd sy'n para oes

I Delwara, mae maethu bob amser wedi bod yn ymwneud â pherthnasoedd. Dros bymtheg mlynedd fel gofalwr maeth, mae hi a'i gŵr wedi croesawu plant o amrywiaeth eang o gefndiroedd i'w cartref, gan ddarparu gofal hirdymor yn bennaf. Heddiw, mae nifer o bobl ifanc yn parhau i fod yn rhan o'u teulu.

Trwy amynedd, dealltwriaeth a chysondeb, mae Delwara wedi helpu pobl ifanc i oresgyn heriau sylweddol. Mae'n cofio cefnogi plant a oedd wedi profi trawma a'u helpu i ail-feithrin ymddiriedaeth drwy weithredoedd bob dydd o ofal a dealltwriaeth.

Roedd un person ifanc yr oedd hi'n gofalu amdano yn cael trafferth academaidd ac wedi methu ei arholiadau TGAU i ddechrau. Gyda chefnogaeth ac anogaeth barhaus, daliodd ati, cwblhaodd brentisiaeth ac yn y pen draw graddiodd o'r brifysgol.

Mae ei stori yn dangos bod maethu yn ymwneud â llawer mwy na darparu lleoliad. Mae'n ymwneud â meithrin perthnasoedd parhaol, magu hyder a rhoi ymdeimlad o berthyn i blant sy'n parhau ymhell ar ôl iddynt adael gofal.

"Rwyf am iddyn nhw wybod y byddaf bob amser yma iddyn nhw, hyd yn oed os ydyn nhw'n symud allan. Mae angen iddyn nhw deimlo'n ddiogel a gwybod na fydd y berthynas honno yn dod i ben."

Stori Lorraine a Paul: Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd

Am fwy na thair blynedd ar ddeg, mae Lorraine a Paul wedi darparu gofal maeth i rieni a phlant yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan helpu rhieni agored i niwed i feithrin yr hyder a'r sgiliau sydd eu hangen i ofalu am eu plant yn ddiogel.

Gyda'i gilydd maen nhw wedi cefnogi mwy nag ugain o rieni a'u babanod. Gan ddefnyddio eu profiad o fagu wyth o blant eu hunain, maen nhw'n darparu cymorth ymarferol, arweiniad ac anogaeth i deuluoedd ar adeg dyngedfennol yn eu bywydau.

Roedd un rhiant ifanc a gefnogwyd ganddynt, Demi, yn 17 oed ac yn feichiog pan gyrhaeddodd eu cartref. Gyda'u cefnogaeth, llwyddodd i baratoi ar gyfer bod yn rhiant, dychwelodd i addysg i astudio peirianneg fecanyddol a dechreuodd gynllunio i fyw'n annibynnol gyda'i merch.

Mae eu stori yn amlygu'r rôl ataliol y gall maethu ei chwarae. Drwy helpu rhieni i lwyddo, gall maethu rhieni a phlant gryfhau teuluoedd, gwella canlyniadau i blant ac atal yr angen am drefniadau gofal tymor hwy.

"Rydym ni'n mynd i weithio gyda nhw i greu amgylchedd lle gallant fagu eu plant yn ddigon da."

Stori Rob: Nid oes un math penodol o ofalwr maeth

Pan ddaeth Rob yn ofalwr maeth, ni ddychmygodd erioed y byddai'n parhau i faethu fel dyn sengl ryw ddydd. Ond ar ôl pedair blynedd ar ddeg, mae wedi gofalu am blant o bob oed ac mae'n parhau i fod yn angerddol am y gwahaniaeth y gall gofalwyr maeth ei wneud.

Chwaraeodd tad Rob ei hun ran bwysig yn ei fagu ef a'i frodyr a'i chwiorydd, gan ysbrydoli llawer o'r gwerthoedd y mae bellach yn eu harddel wrth faethu. Dros y blynyddoedd, mae wedi dysgu bod maethu yn ymwneud ag amynedd, empathi a helpu plant i fagu hyder ynddyn nhw eu hunain.

Un o'i gyflawniadau mwyaf balch yw cefnogi person ifanc drwy ei arddegau ac ymlaen i fyd oedolion, gan ei weld yn dod yn fwy annibynnol, yn mynd i'r coleg ac yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer bywyd fel oedolyn.

Mae ei stori yn herio camsyniadau cyffredin ynghylch pwy all faethu ac yn adlewyrchu amrywiaeth gynyddol ymhlith gofalwyr Maethu Cymru.

"Os oes gennych chi'r amser, yr amynedd a'r gallu i agor eich calon a'ch cartref i blant, byddwn i'n dweud ewch amdani."





Cydweithio dros Gymru: Un rhwydwaith cenedlaethol

Efallai mai stori fwyaf y pum mlynedd diwethaf yw'r cydweithio sydd wedi datblygu ledled Cymru.

Cyn sefydlu Maethu Cymru, roedd gwasanaethau maethu awdurdodau lleol yn aml yn gweithio'n annibynnol. Heddiw, mae 22 awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd trwy un rhwydwaith cenedlaethol, gan rannu gwybodaeth, datblygu dulliau gweithredu cyson a dysgu oddi wrth y naill a'r llall.

Boed hynny trwy ymgyrchoedd recriwtio, cyfleoedd hyfforddi, prosiectau rhanbarthol neu ddatblygiadau cenedlaethol, mae'r ymdrech ar y cyd wedi helpu i greu sylfeini cryfach ar gyfer gwasanaethau maethu awdurdodau lleol.

Pam mae'n bwysig

Mae Maethu Cymru yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan fydd sefydliadau'n dod ynghyd i wireddu uchelgais gyffredin: gwella bywydau plant a phobl ifanc.

"Mae Maethu Cymru yn bartneriaeth sy'n aeddfedu ac yn datblygu i sefydlu llwyfan effeithiol i gryfhau ac ehangu ein gweithgareddau maethu. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym ni wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau i faethu, a fydd yn fuan yn arwain at fwy o ofalwyr maeth cymeradwy ar gyfer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol hwn.

Rydym ni'n priodoli'r gwelliant hwn yn uniongyrchol i'r cymorth ariannol ac ymarferol rydym ni wedi'i gael drwy gydweithio fel Maethu Cymru, ynghyd â chryfder a phenderfyniad ein hymarferwyr lleol. Rydym ni'n gwerthfawrogi'n fawr y berthynas waith hael gyda'r tîm cenedlaethol a'r adnoddau ychwanegol sydd ar gael i ategu ymdrechion rhagorol pawb sy'n rhan o'r gwaith. Edrychwn ymlaen at flwyddyn gynhyrchiol arall, gan gydweithio fel rhan o Maethu Cymru."

Audrey Somerton Edwards
Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Ceredigion

Dim ond cipolwg bach ar y miloedd o deithiau maethu sydd wedi digwydd ers sefydlu Maethu Cymru yn 2021 mae'r straeon yn yr adroddiad hwn yn ei roi.

Mae pob profiad maethu yn wahanol. Mae rhai yn para wythnosau, eraill yn para blynyddoedd. Mae rhai'n ymwneud â helpu plant i ddychwelyd adref, tra bo eraill yn datblygu'n berthnasoedd gydol oes. Gyda'i gilydd, mae'r straeon hyn yn ein hatgoffa nad yw maethu yn ymwneud â lleoliadau neu wasanaethau yn unig. Mae'n ymwneud â phobl.

Wrth i Maethu Cymru edrych tuag at ei bennod nesaf, mae'n gwneud hynny gyda diolch i'r gofalwyr maeth, plant a phobl ifanc, gweithwyr cymdeithasol, awdurdodau lleol a phartneriaid y mae eu hymrwymiad wedi llywio camau cyntaf y daith hon.

edrych i'r dyfodol

7

Mae datblygiad Maethu Cymru wedi dangos pŵer cydweithio. Gyda'i gilydd, mae 22 awdurdod lleol Cymru wedi creu llais cenedlaethol cryfach ar gyfer gwasanaethau maethu awdurdodau lleol, wedi gwella recriwtio a chadw gofalwyr maeth, wedi cynyddu'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr maeth, ac wedi cryfhau'r sylfeini sydd eu hangen i sicrhau bod mwy o blant yn cadw cysylltiad â'u teuluoedd, eu cymunedau a'u hardaloedd lleol.

Wrth i ni edrych ymlaen at y bennod nesaf, nid cynnal y cynnydd a wnaed yn unig yw ein nod, ond adeiladu arno. Mae'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau maethu yn parhau i fod yn sylweddol. Mae'r galw am ofal maeth yn parhau i esblygu, mae anghenion plant yn mynd yn fwyfwy cymhleth, ac mae'n rhaid i wasanaethau ledled Cymru barhau i addasu i sicrhau bod pob plentyn yn derbyn y gofal cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir.

Mae Rhaglen Waith Maethu Cymru 2026-28 yn nodi agenda uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol. Er bod y blaenoriaethau'n adlewyrchu anghenion newidiol plant, gofalwyr maeth a gwasanaethau, maen nhw'n parhau i fod wedi'u gwreiddio yn yr egwyddorion sydd wedi arwain Maethu Cymru o'r cychwyn cyntaf: cydweithio, darpariaeth leol, a chanlyniadau gwell i blant.





Recriwtio'r Gofalwyr Maeth sydd eu hangen ar Gymru

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd Maethu Cymru yn parhau i gryfhau ei ddull o recriwtio, gan sicrhau bod mwy o bobl yn deall y cyfleoedd sydd ar gael drwy faethu gydag awdurdodau lleol.

Mae hyn yn cynnwys datblygu brand Maethu Cymru ymhellach, gwella ymgysylltiad digidol, ehangu'r gwaith gyda llysgenhadon gofal maeth a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, cryfhau perthnasoedd â chyflogwyr a sefydliadau cymunedol, a chynyddu amlygrwydd maethu ledled Cymru. Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i recriwtio gofalwyr ar gyfer mathau arbenigol o faethu, gan gynnwys seibiannau byr, lleoliadau rhieni a phlant a symud o ofal preswyl i ofal maeth.

Ein huchelgais yw nid yn unig denu mwy o ymholiadau, ond gwella profiad darpar ofalwyr maeth drwy gydol eu taith, gan helpu mwy o bobl i symud ymlaen yn llwyddiannus o'r cam ymholi i gael eu cymeradwyo.

Cryfhau cefnogaeth i ofalwyr maeth

Bydd cefnogi a chadw gofalwyr maeth yn parhau i fod yn ganolog i'n gwaith.

Gan adeiladu ar yr Ymrwymiad Cenedlaethol, bydd Maethu Cymru yn parhau i weithio tuag at fwy o gysondeb o ran cymorth, cyfleoedd dysgu a datblygu, mentrau lles a buddion ymarferol i ofalwyr ledled Cymru. Bydd dulliau newydd yn canolbwyntio ar wrando ar ofalwyr maeth, deall eu profiadau a defnyddio eu hadborth i lywio gwasanaethau yn y dyfodol.

Un o'r prif bwyntiau ffocws dros y ddwy flynedd nesaf fydd lansio Fframwaith Dysgu a Datblygu wedi'i ddiweddaru, ochr yn ochr â chyfleoedd dysgu digidol newydd a llwybrau hyfforddi arbenigol. Bydd Maethu Cymru hefyd yn parhau i archwilio sut y gellir cryfhau cymorth ariannol a lwfansau er mwyn sicrhau bod maethu gydag awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn ddeniadol i ofalwyr.

Gwella sefydlogrwydd a chanlyniadau i blant

Mae popeth mae Maethu Cymru yn ei wneud yn y pen draw yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant.

Bydd cam nesaf ein gwaith yn canolbwyntio ar gynyddu sefydlogrwydd lleoliadau, cryfhau cymorth yn ystod blwyddyn gyntaf maethu, ehangu mynediad at ofal seibiant a chymorth gan gymheiriaid, a gwerthuso mentrau fel Croeso Mawr er mwyn deall eu heffaith ar brofiadau plant.

Byddwn yn parhau i rannu'r hyn a ddysgwyd ac arferion da ledled Cymru, gan helpu awdurdodau lleol i ddatblygu ffyrdd arloesol o gefnogi plant, gofalwyr maeth a theuluoedd. Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i gefnogi plant ag anghenion mwy cymhleth a sicrhau bod gwasanaethau maethu lleol yn gallu ymateb yn effeithiol i batrymau galw sy'n newid.

Cydweithio fel un maethu Cymru

Un o gryfderau mwyaf Maethu Cymru yw ei allu i ddod ag arbenigedd a phrofiad 22 awdurdod lleol ynghyd.

Bydd cam nesaf y datblygiad yn canolbwyntio ar gryfhau'r cydweithio hwn hyd yn oed ymhellach. Bydd adnoddau cenedlaethol newydd, offer cymorth i staff, polisïau ar y cyd, digwyddiadau rhannu arferion a chyfleoedd dysgu yn helpu i sicrhau bod datblygiadau llwyddiannus mewn un rhan o Gymru yn gallu bod o fudd i blant a gofalwyr maeth ym mhobman.

Bydd datblygu ein trefniadau llywodraethu, ein strwythurau rhanbarthol a'n partneriaethau cenedlaethol ymhellach yn helpu i sicrhau bod Maethu Cymru yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn ddylanwadol ac yn gallu ymateb yn effeithiol i heriau'r dyfodol.

Defnyddio data i sbarduno gwelliant

Mae Maethu Cymru wedi cryfhau'r ffordd mae'n defnyddio data a gwybodaeth am berfformiad yn sylweddol. Wrth edrych i'r dyfodol, bydd dangosfyrddau ac offer adrodd newydd yn darparu gwybodaeth fanylach ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, gan helpu gwasanaethau i ddeall y galw, nodi tueddiadau a thargedu adnoddau'n fwy effeithiol.

Drwy gyfuno data, arbenigedd proffesiynol a lleisiau gofalwyr maeth a phlant, byddwn ni'n parhau i ddatblygu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o wella gwasanaethau maethu ledled Cymru.

Y bennod nesaf

Mae stori Maethu Cymru yn dal i gael ei hysgrifennu.

Mae'r pum mlynedd gyntaf wedi ymwneud â gosod y sylfeini: sefydlu hunaniaeth genedlaethol, creu partneriaethau cryfach, datblygu seilwaith newydd a dangos manteision cydweithio. Mae'r cam nesaf yn ymwneud â thwf, cynaliadwyedd ac effaith.

Mae ein huchelgais yn parhau i fod yn ddigyfnewid: sicrhau bod pob plentyn sydd angen gofal maeth yn cael cyfle i dyfu i fyny mewn amgylchedd teuluol diogel, sefydlog a chariadus, mor agos â phosibl at y bobl, y lleoedd a'r cymunedau sydd bwysicaf iddynt.

Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i weithio i greu dyfodol gwell i blant lleol.



drwy weithio gyda'n gilydd, a chydweithio â'n gofalwyr maeth fel un tîm cysylltiedig, bydd maethu cymru yn creu dyfodol gwell i blant lleol

maethu cymru | foster wales

Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW

029 2087 3797